Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 15.03.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# RECRIWTIO: Ffair Swyddi Gwaith Gwynedd Abermaw

Mae 35 o fusnesau wedi cyfarfod â 160+ o ymgeiswyr am waith, gyda thros 120 o gynigion gwaith wedi eu gwneud, yn ffeiriau swyddi Gwaith Gwynedd yn ystod yr wythnosau diwethaf. Bydd Gwaith Gwynedd – mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) – yn cynnal ffair swyddi ar gyfer pob sector yn Byw'n Iach Pafiliwn – Canolfan Hamdden, Abermaw, LL42 1NF, ar 5 Ebrill 2022 (10:00am-2:00pm). Bydd ffeiriau hefyd yn cael eu cynnal yn Nolgellau, Pwllheli, Blaenau Ffestiniog a Thywyn (dyddiadau a lleoliadau i'w cadarnhau).

Os ydych yn recriwtio ac yn dymuno cymryd rhan, cysylltwch ar 01286 679211 neu gwaithgwynedd@gwynedd.llyw.cymru

Cofiwch, gallwch hefyd hysbysebu unrhyw swyddi ar hysbysfwrdd Gwaith Gwynedd:

https://www.facebook.com/groups/1169426113501265

# DYNGAROL: Lansio cynllun 'Cartrefi i'r Wcráin'

Gall unigolion, elusennau, grwpiau cymunedol a busnesau yn y DU bellach gofnodi eu diddordeb mewn cefnogi Wcreiniaid sy'n ffoi rhag y rhyfel drwy gynllun newydd Llywodraeth y DU, 'Cartrefi i'r Wcráin' (Homes for Ukraine). I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

https://www.gov.uk/government/news/homes-for-ukraine-scheme-launches

Gall trigolion yng Ngwynedd wneud ymholiad/cynnig cymorth trwy e-bostio:

ffoaduriaid@gwynedd.llyw.cymru

# COVID-19: Ceisiadau terfynol ar gyfer y Cynllun Ad-dalu Tâl Salwch Statudol

Mae gan gyflogwyr tan 24 Mawrth 2022 i gyflwyno hawliadau i'r Cynllun Ad-dalu Tâl Salwch Statudol ar gyfer absenoldebau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws rhwng 21 Rhagfyr 2021 a 17 Mawrth 2022, neu i ddiwygio hawliadau a gyflwynwyd eisoes. Mae canllawiau ar gael ar:

https://www.gov.uk/guidance/claim-back-statutory-sick-pay-paid-to-employees-due-to-coronavirus-covid-19.cy

# TRETH: Paratoi ar gyfer yr Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae CThEM wedi cyhoeddi canllawiau ar baratoi ar gyfer yr Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol – gan gynnwys neges newydd i'w chynnwys ar slipiau cyflog. Bydd yr Ardoll yn cynyddu cyfraniadau Yswiriant Gwladol i'r rhan fwyaf o weithwyr 1.25% o 6 Ebrill 2022. Mae'r canllawiau ar gael ar:

https://www.gov.uk/guidance/prepare-for-the-health-and-social-care-levy.cy

# CYFLOGAETH: Cynyddu ac ymestyn cymhellion i fusnesau recriwtio prentisiaid anabl

Mae Cynllun Cymhellion i Gyflogwyr ar gyfer Prentisiaid Anabl Llywodraeth Cymru, a gynlluniwyd i annog cyflogwyr i gael profiad uniongyrchol o fanteision recriwtio pobl anabl, yn cael ei ymestyn tan fis Mawrth 2023. Bydd busnesau sy'n recriwtio prentisiaid anabl llawn amser dros y flwyddyn nesaf yn gallu disgwyl derbyn cymhelliant ychwanegol o £2,000. Mae mwy am hyn ar:

https://llyw.cymru/cynllun-cymhellion-llywodraeth-cymru-i-fusnesau-ar-gyfer-recriwtio-prentisiaid-anabl-wedi-cynyddu

Mae'r Cynllun Cymhellion i Gyflogwyr ar gyfer Prentisiaethau presennol hefyd yn cael ei ymestyn hyd at 31 Mawrth 2022. Mae cymorth ar gael tuag at gost hyfforddiant ac asesiadau, ac mae busnesau o bob maint ac ym mhob sector yn gymwys. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3sXrrfK

# AROLWG: Arolwg o'r Diwydiant gan Cymru Greadigol

Mae Cymru Greadigol yn gofyn i fusnesau, cyflogwyr, gweithwyr cyflogedig a llawrydd yn y diwydiannau creadigol i gymryd rhan mewn arolwg byr a fydd yn eu hysbysu o'r ffordd orau o gefnogi

sefydliadau ac unigolion yn y dyfodol. Bydd yr arolwg yn cau ar 25 Mawrth 2022 – i gymryd rhan, ewch i:

https://bit.ly/creative-wales

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru